Atodiad 7: Nodiadau ychwanegol ynglŷn â mesurau Llywodraeth y Cynulliad

Nodiadau ychwanegol ynglŷn â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

- ⇨ Cyflwynwyd y Mesur hwn ar 2 Mawrth 2009 gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Fe'i pasiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Tachwedd 2009 ac fe'i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi mewn Cyngor ar 10 Chwefror 2010.
- ⇨ Mae'r Mesur yn gweithredu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n rhoi mwy o gefnogaeth i deuluoedd lle gallai plant fod mewn perygl ac mae'n cryfhau gorfodaeth reoliadol mewn lleoliadau gofal plant.
- ⇨ Mae'r Mesur yn rhoi sylw i dri maes pwnc:
    - Tlodi plant, chwarae a chyfranogiad;
    - Gwarchod plant a gofal dydd i blant;
    - Timau integredig i gefnogi plant.
- ⇨ Nod y Mesur yw gwella bywydau plant a theuluoedd agored i niwed yng Nghymru, a bywydau'r rheiny y mae tlodi yn eu gosod dan anfantais. Bydd yn hwyluso darparu cefnogaeth i'r teuluoedd a'r plant hynny sydd fwyaf ei angen a fyddai, heb gefnogaeth ychwanegol, dan anfantais annheg o fewn ein cymdeithas.
- ⇨ MAE'N BWYSIG IAWN TANLINELLU BOD TLODI PLANT YN FATER SY'N YMWNEUD Â HAWLIAU
- ⇨ Mae Rhan 2 y Mesur yn atgyfnerthu pob deddfwriaeth sylfaenol gyfredol yng nghyswllt gwarchod plant a gofal plant mewn un lle, gan ei gwneud yn fwy hygyrch i gyfreithwyr yn ogystal ag i'r rheiny sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau gwarchod a gofal dydd i blant.
- ⇨ http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents

Nodiadau ychwanegol ynglŷn â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

- ⇨ Cyflwynwyd y Mesur hwn ar 11 Mehefin 2010 gan y Dirprwy Weinidog dros Blant.
- ⇨ Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i dalu sylw dyledus (ystyriaeth gytbwys i CCUHP a ffactorau eraill) i'r hawliau a'r ymrwymiadau gwreiddiol o fewn CCUHP.
    a) Wrth wneud unrhyw benderfyniad yng nghyswllt datblygu polisi a deddfwriaeth rhwng 1 Mai 2012 - 30 Ebrill 2014
    b) Wrth ymarfer eu swyddogaethau (defnyddio pŵer neu ddyletswydd cyfreithiol i wneud rhywbeth o 1 Mai 2014 ymlaen
- ⇨ Golyga hyn y bydd rhaid i Weinidogion Cymru, yn y dyfodol, ystyried CCUHP (a sut y gallent ategu'r hawliau a'r ymrwymiadau o'i fewn) pan fyddant yn llunio penderfyniadau neu'n defnyddio eu pwerau neu ddyletswyddau cyfreithiol. Effaith hyn yw gwneud CCUHP yn rhan o fframwaith neu brosesau llunio penderfyniadau Gweinidogion.
- ⇨ Bydd y Mesur yn gofyn bod Gweinidogion Cymru'n paratoi cynllun plant ac yn cynhyrchu adroddiadau ynglŷn â chydymffurfio â'r dyletswydd i dalu sylw dyledus i CCUHP a'i Brotocolau Dewisol. Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd hefyd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â CCUHP, a gallant hefyd ddiwygio deddfwriaeth er

mwyn rhoi mwy o rym i CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, pe bai adroddiad ynglŷn â chydymffurfio yn dynodi y byddai hyn yn fuddiol.

- ⇨ Nod y Mesur yw gwreiddio egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith, er lles plant Cymru.
- ⇨ Daeth y Mesur yn rhan o gyfraith ddomestig yng Nghymru ar 17 Mawrth 2011.
- ⇨ http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents/enacted